# Cyngor Cymuned Llansawel *Community Council*

**Cyfarfod Misol / *Monthly Meeting***

**Cyfarfod rhithwir trwy Zoom am**
**20:00 ar y 22ain o Orffennaf 2021**
***Virtual meeting via Zoom at***
***20:00 on the 22nd of July 2021***

**Yn bresennol / *Present*:**

Cynghorwyr / *Councillors*: Pat Racher

Cyng. Sir / *County Cllr*: Eirwyn Williams

Clerc / *Clerk:* Angharad Medi Lewis

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso / Welcome**<br>Croesawodd y Clerc y ddau Gynghorydd i'r cyfarfod misol. Yn anffodus, gan nad oedd digon o gynghorwyr yn y cyfarfod, nid oedd yn bosibl gwneud unrhyw benderfyniadau, felly penderfynwyd trafod y pwyntiau perthnasol yn unig.<br>*The Clerk welcomed both Councillors to the monthly meeting. Unfortunately, as there were not enough councillors at the meeting, it was not possible to make any decisions, so it was decided to discuss only the relevant points.* |
| **2.** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb / *Apologies for absence***<br>Cynghorwyr / *Cllrs* Rhys George (Cadeirydd / *Chair*), Rhys Green (Is-gadeirydd / *Vice chair*), Kevin Davies, Meurig Griffiths, Sion Williams, Elsbeth Jenkins & Lynne Jones. |
| **3.** | **Datganiadau o ddiddordeb / *Declarations of interest***<br>Dim / *None*. |
| **4.** | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 24ain o Fehefin 2021**<br>***Minutes from the previous meeting held on the 24th of June 2021***<br>Ni dderbyniwyd y cofnodion gan nad oedd digon o gynghorwyr yn bresennol i'w cymeradwyo.<br>*The minutes were not accepted as there was not enough councillors present to approve them.* |
| **5.** | **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**<br><br>i. **Pont Tancoed, Heol Esgairdawe** – Mae'r mater hwn mewn llaw.<br>***Tancoed bridge, Esgairdawe Road** – This issue is in hand.*<br><br>ii. **Gwefan** – Dim byd i'w adrodd y tro hwn.<br>***Website** – Nothing to report this time.*<br><br>iii. **Hen adeilad yr hers** – Dim byd i'w adrodd y tro hwn.<br>***The old Hearse building** – Nothing to report this time.*<br><br>iv. **Prosiect Llwybr Troed** – Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Caroline Ferguson, Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad a esboniodd fod Hawl Tramwy Cyhoeddus drwy ystâd Edwinsford, Cilffordd sy'n Agored i Bob Traffig (BOAT) ond mae perchennog yr ystâd wedi cloi gatiau'n anghyfreithlon yn ddiweddar ac wedi codi arwyddion ar hyd y llwybr. |

| | |
|---|---|
| | Mae achosion gorfodi yn parhau, gan obeithio datrys y rhwystr ac ailagor y llwybr yn fuan. Awgrymwyd ein bod yn aros nes i'r mater gael ei ddatrys os yw'n gyswllt hyfyw yn ein llwybr cylchol.<br>Nodwyd fod y clerc hefyd wedi derbyn e-bost gan Jason Lawday, Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad. Hoffai wybod pa lwybr yr hoffem ei ddefnyddio ar gyfer y daith gylchol, a gall ein cynghori ymhellach. Mae Jason Lawday wedi gweithio ar lawer o lwybrau o amgylch Llansawel yn y gorffennol ac mae'n bwriadu gwneud rhai gwelliannau yn yr ardal yn y dyfodol agos.<br><br>***Public Footpath Project*** *- The Clerk confirmed that she has received a reply from Caroline Ferguson, Countryside Access Manager who explained that there is a Public Right of Way through the Edwinsford estate, a Byway Open to All Traffic (BOAT) but the owner of the estate has recently unlawfully locked gates and erected signs along the route. Enforcement proceedings are ongoing, with hope to resolve the obstruction and re-open the route soon. It was suggested that we wait until the issue is resolved if it's a viable link in our circular route proposal.*<br>*It was noted that the clerk had also received an email from Jason Lawday, Countryside Access Officer. He would like to know what route we would like to use for the circular walk, and he can advise us further. Jason Lawday has worked on a lot of paths around Llansawel in the past and is intending to carry out some improvements in the area in the near future.* |
| **S** | **Dyfodol Adeilad Ysgol Llansawel / *The Future of Llansawel School Building***<br>Dim gwybodaeth i'w hadrodd.<br>*No information to report.* |
| **7.** | **Gohebiaeth / *Correspondence***<br><br>**i.** Cylchlythyr **Clerks & Councils Direct** *Newsletter July 2021, Issue 136*<br><br>**ii.** **Clwb Bach ardal Pumsaint / Crugybar –** Ebost o ddiolch gan Helen Lewis am ein cyfraniad at ddigwyddiadau Clwb Bach.<br>***Clwb Bach Pumsaint / Crugybar area*** *– An email of thanks from Helen Lewis for our contribution to Clwb Bach events.*<br><br>**iii.** **Un Llais Cymru** – Operation London Bridge - Canllawiau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.<br>***One Voice Wales*** *– Operation London Bridge Guidance for Community & Town Councils.*<br><br>**iv.** **Y Lloffwr -** Copi o rifyn Mehefin 2021 a chais am gymorth ariannol.<br>*Copy of the June 2021 edition and request for financial support.*<br><br>**v.** **Un Llais Cymru** – Anfoneb ar gyfer hyfforddiant Côd Ymddygiad a fynychwyd gan y Cyng. Pat Racher ar 30/06.<br>***One Voice Wales*** *- Invoice for Code of Conduct training attended by Cllr. Pat Racher on 30/06.* |
| **8.** | **Ceisiadau cynllunio / *Planning applications***<br>Dim / *None.* |

| | |
|---|---|
| **9.** | **Materion ariannol / Financial matters**<br>Balans yn y cyfrif banc - £4,216.13 ar 28/06/21.<br>*Bank Account balance - £4,216.13 as of 28/06/21.* |
| **i.** | **Rhoddion a thaliadau / *Donations & Payments***<br>Ni ellir cymeradwyo rhoddion a thaliadau y mis hwn oherwydd diffyg Cynghorwyr yn bresennol. Pob anfoneb a chais i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.<br>*Donations and payments cannot be approved for processing this month due to a lack of Councillors present. All invoices and requests to be forwarded for approval at the next meeting.* |
| **ii.** | **Crynodeb Chwarterol o'r cyfrifon** – Paratowyd crynodeb Chwarterol am y cyfnod 01/04/21 – 30/06/21.<br>***Quarterly Summary of Accounts -*** *Quarterly summary prepared for the period 01/04/21 – 30/06/21.* |
| **iii.** | **Cyfrifon / Archwiliad Blynyddol** – Nodwyd bod y cyfrifon gyda'r cyfrifydd ar hyn o bryd, gan gynnwys y llyfr siec.<br>***Annual Accounts / Audit*** *– It was noted that the accounts are currently with the accountant, including the chequebook.* |
| **10.** | **Coronafeirws** / ***Coronavirus (Covid-19)***<br>Dim / *None.* |
| **11.** | **Unrhyw fusnes arall / Any other business**<br><br>- **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** – Nodwyd fod y Clerc wedi danfon cais am ardd Ffrwythau a Pherlysiau i'r pentref.<br>***Local Places for Nature*** *– It was noted that the Clerk has applied for a Fruit and Herb Garden for the village.*<br><br>- **Coeden Onnen –** Rhoddwyd wybod i'r Cyng. Eirwyn Williams am y goeden.<br>***Ash Tree*** *– Cllr Eirwyn Williams was informed about the tree.*<br><br>- **Canghennau Crog** – Adroddwyd bod canghennau'n hongian o goeden ar ffordd Llansawel i Abergorlech, ychydig heibio'r fynedfa i Benbontbren a soniwyd hefyd bod tarmac wedi'i erydu'n ddifrifol gan ddŵr ar ôl fferm Ffosgota. Bydd y Cyng. Eirwyn Williams yn adroddiad hyn i'r Cyngor Sir.<br>***Hanging branches*** *– It was reported that branches are hanging from a tree on the Llansawel to Abergorlech road, just past the entrance to Penbontbren and it was also mentioned that tarmac has been severely eroded by water after Ffosgota farm. Cllr Eirwyn Williams will report the issue to the County Council.*<br><br>- **Ymddiswyddiad y Clerc** - Cyhoeddodd y Clerc ei bod yn ymddiswyddo, oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill. I'w drafod ymhellach yn y cyfarfod misol nesaf. Yn y cyfamser, bydd y clerc yn paratoi hysbyseb swydd.<br>***Clerk's Resignation*** *– The Clerk announced that she is resigning, due to other work commitments. To be discussed further in the next monthly meeting. In the meantime, the clerk will prepare a job advert.* |
| **12.** | **Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf / *Date and time of next meeting***<br><br>16eg o Fedi 2021 am 20:00 trwy Zoom.<br>*16th of September 2021 at 20:00 via Zoom.* |

Heb unrhyw fusnes arall i'w drafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 20:45.
*With no other business to discuss, the Chair closed the meeting at 20:45*.

**Arwyddwyd / Signed ………………………………. Dyddiad / Date ………………………**